

**Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n  
canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n  
seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.**

**Cyflwyniad**

Yn yr aseiniad yma bydd trafodaeth am werthusiad beirniadol ynglŷn â digwyddiad critigol o fewn ysgol benodol. (Tripp, 1993, Tud.8) Bydd dadansoddiad trylwyr o'r camau nesaf o ddysgu ac addysgu yn cael eu trafod. Wrth ymchwilio byddaf yn ystyried nifer o resymau pam bod y digwyddiad critigol wedi digwydd. A oedd yna resymau penodol dros y digwyddiad? Beth yw hanes cyffredinol yr unigolyn neu unigolion? E.e. A oes yna ddatganiad anghenion arbennig, beth yw cefndir cartref y plentyn?

Wrth archwilio'r achos critigol bydd sylw i agwedd ac ymddygiad y plant, a'r strategaethau mae'r athro yn defnyddio i ddelio â'r sefyllfa. Caiff ymddygiad ei ddiffinio fel y ffordd mae unigolyn yn ymddwyn o fewn gwahanol amgylchiadau. (Estyn, 2014, Tud.3) Wrth arsylwi, dylid gweld sut i ymateb a delio gyda digwyddiadau critigol sy'n digwydd bob dydd o fewn yr ysgol. Bydd profiadau fel hyn yn bwysig yn y pen draw er mwyn datblygu 'tool kit' o strategaethau er mwyn hwyluso ffyrdd o ymdopi â gwahanol sefyllfaoedd a allai godi. Mae'r ymweliad â'r ysgol yn caniatáu cysylltu'r ymchwiliad a ddarllenwyd gyda'r digwyddiadau real ar lawr y dosbarth. Mae hyn yn rhoi profiad uniongyrchol o'r modd y mae Athro yn delio gydag achosion critigol.

Mae ymarfer myfyriol yn holl bwysig er mwyn llwyddo o fewn y dosbarth. Wrth addysgu rhaid myfyrio ar weithredoedd eraill er mwyn cymryd rhan mewn proses parhaus o ddysgu a sicrhau gwelliant a chynnydd y disgyblion. (Beith, 2012, Tud.12, 43)

**Cyd-destun ysgol a dosbarth:**

Mae Ysgol Gynradd X yn ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 11 oed. (Adroddiad Estyn, 2018) Fe'i lleolir mewn ardal di Gymraeg tu allan i dref Abertawe, gyda dim ond 10% o'r disgyblion yn byw mewn cartrefi cyfrwng Cymraeg. Mae yna bwyslais mawr ar ddatblygu'r iaith Gymraeg yn ysgol gan fod rhan fwyaf o'r disgyblion ddim yn cael y cyfle adref. (Prosbectws Ysgol X) Mae gan yr ysgol dros 500 o ddisgyblion wedi rhannu mewn i 17 ystafell ddosbarth. Trwy'r adeilad cyfan mae yna nifer o ardaloedd gweithio tu allan i'r ystafell ddosbarth o'r enw'r Hafan. Dyma le mae disgyblion yn gwneud tasgau creadigol, darllen a gweithio'n annibynnol. Nod yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn cael eu harwain i gyrraedd eu llawn potensial a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n derbyn y cyfleoedd i ddatblygu yn:

*“ddisgyblion academiaidd yn foesol, yn ysbrydol ac yn esthetig mewn awyrgylch hapus a Chymreig yr ysgol.” (Prospectws Ysgol X)*

(Adroddiad Estyn Ysgol X, 2018, Tud.1) Mae 7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ac mae'r ysgol wedi adnabod 22% o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ond dim ond ychydig o'r ganran hynny sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth Blwyddyn 2 sydd wedi eu rhannu yn ôl oedran, felly mae un dosbarth yn hŷn na'r llall. Arsylwais y dosbarth hynach sydd â 26 o ddisgyblion a dim ond 6 ohonynt yn ferched. Mae nifer ohonynt yn 6oed ar hyn o bryd gyda phob un yn troi'n 7 oed erbyn diwedd mis Ebrill.

### **Methodoleg:**

Ceir nifer o ddulliau gwahanol o arsylwi. (Cohen, et al, 2007) Y broses o arsylwi yw casglu gwybodaeth am blant wrth eu gwyllo a nodi beth maent yn ei wneud a dweud. Defnyddiwn ddulliau arsylwi er mwyn darganfod anghenion dysgu plant unigol. Gallwn ddarganfod pa sgiliau newydd mae'r plant yn datblygu dros amser a darganfod pa agweddau mae'r plant yn mwynhau ac yn casáu. Mae arsylwi yn bwysig er mwyn asesu datblygiad a chynnydd plentyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyrraedd eu cerrig milltir o ran gofynion y Cyfnod Sylfaen. Bydd y darganfyddiadau yma'n helpu athrawon i gynllunio'r camau nesaf o fewn datblygiad y plentyn. (West Sussex.gov, 2015)

Mae yna nifer o ddulliau arsylwi, megis....

(Seehorn A, 2017) Mae **samplau amser** yn cael ei ddefnyddio er mwyn cadw cofnod o sut mae'r plant yn ymddwyn. Defnyddir siart tali i nodi pa mor aml mae'r ymddygiad yn ymddangos yn ystod y sesiwn arsylwi. Mae samplau amser yn effeithiol er mwyn deall pam a pryd mae'r ymddygiad yma'n codi yn ystod y dydd.

(Cohen, et al, 2007) Mae **samplau digwyddiad** yn gyfres o arsylwadau byr o ymateb plentyn mewn sefyllfa benodol. Defnyddir hwn er mwyn nodi patrwm ymddygiad plentyn sy'n rhoi arwydd o'r rhesymau pam bod yr ymddygiad penodol yma'n digwydd. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn helpu oedolion proffesiynol i asesu pam bod y plentyn yn ymateb mewn ffordd benodol ac yn archwilio'r posibilïadau am y ymddygiad. Bydd hwn yn arwain at ddarganfod strategaethau i ymdrin â sefyllfa benodol i ddelio â'r ymddygiad yn effeithiol.

(Lorina, 2016) Mae **siociogram** yn fap sy'n dangos y nifer o weithiau mae grŵp o blant yn cyfathrebu gyda'i gilydd. Defnyddir y dull gydag amrywiaeth o oeddrannau a chaiff ei adnabod fel dull sy'n adlewyrchu patrymau rhyngweithio cymdeithasol rhwng y plant. Defnyddir er

mwyn darganfod pwy mae'r plentyn yn hoffi chwarae gyda neu i ddarganfod os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plentyn.

Mae'r **dull cyfryngau digidol** sef tynnu lluniau, fideos a ffeiliau sain yn helpu i atgyfnerthu pwyntiau yn well na geiriau mewn rhai amgylchiadau. (Papatheodorau, et al, 2011, Tud.36) Yn ogystal â hynny bydd y rhain yn helpu i gefnogi sylwadau o fewn yr arsylwad. Yn anffodus nid oedd modd defnyddio'r dull yma oherwydd polisi'r ysgol o ran diogelu plant. O gael y caniatâd byddai defnyddio'r dull yma wedi helpu i atgyfnerthu'r achos critigol o dan sylw yn y traethawd hwn.

Wrth wneud y dull '**cofnodion ysgrifenedig**' y bwriad yw bod unigolion yn gwylio a gwrandeo ar y plant y maent yn eu harsylwi. Yna, gwneir cofnodion byr mewn llyfr nodiadau. Mae'r dull yma'n addas ar gyfer arsylwi wrth weithio a chyfathrebu gyda'r plant. Mae'n ffordd ymarferol o gofnodi nodiadau yn syth heb ei brosesu. Dyma'r dull arsylwi defnyddiaid i yn ystod yr arsylwad cyntaf. Y rheswm dros ddewis y dull yma oedd y math o awyrgylch yn y dosbarth. Roedd gan y dosbarth amrywiaeth o wahanol allu ac ymddygiad, ac felly dyma'r dull a fyddai'n gweithio orau wrth weithio gyda'r plant yn ystod y wers. Gan fod y dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen roedd yna nifer o weithgareddau yn digwydd ar yr un pryd ac felly credaf mai'r dull yma byddai mwyaf effeithiol er mwyn gallu myfyrio o bellter gwrthrychol yn dilyn yr arsylwad. Oherwydd natur y plant bach, a oedd yn naturiol yn cyfathrebu â fi'n gyson yn ystod yr arsylwad, roedd rhaid cofnodi yn fyr ar y pryd ac ehangu ar y nodiadau yn hwyrach.

### **Beth yw achos critigol?**

Yn ôl Tripp (1993) achos critigol yw digwyddiad sy'n gwneud i chi feddwl, mae'n rhywbeth naturiol byddwch yn sylwi arno sy'n cael effaith ar sut mae'r plant yn datblygu. Gall yr hyn gaiff ei ystyried fel achos critigol amrywio yn ôl dehongliad addysgwyr – H.y. Mae rhai digwyddiadau yn fwy arwyddocaol na'i gilydd ym marn gwahanol bobl.

*"A critical incident is an interpretation of the significance of an event. To take something as a critical incident is a value judgement we make, and the basis of that judgement is the significance we attach to the meaning of the incident." (Tripp 1993, Tud.8)*

E.e. Disgrifia Tripp digwyddiad critigol fel strategaethau sy'n amharu ar ddisgyblion i fod yn annibynnol.

Wrth werthuso achos critigol rhaid esbonio beth a pham digwyddodd y digwyddiad. Bydd hwn yn rhoi esboniad mwy clir o sut mae'r digwyddiad wedi troi'n achos critigol. Felly er mwyn darganfod yr achos critigol rhaid cael digwyddiad, a'i werthuso mewn darnau cyn darganfod beth sy'n gritigol amdano. (Tripp, 1993, Tud.26)

Wrth feddwl am achos critigol mae yna nifer o gryfderau a gwendidau i'r ffyrdd gwahanol o arsylwi a esboniwyd eisioes. Mae methodoleg y broses arsylwi a ddefnyddiais i yn effeithiol gan rydych yn gallu cael blas ar ddigwyddiad go iawn ar y pryd a phrofi mwy o ddealltwriaeth am yr achos critigol wrth fyfyrion ar ôl yr arsylwi. Daeth yr achos critigol yn fyw wrth archwilio'r sefyllfa mewn ffordd ymarferol.

### **Digwyddiad beirniadol yn gysylltiedig â Phedwar Diben Donaldson:**

Wrth ddadansoddi a myfyrio ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd wrth fynd i Ysgol X, seilir fy mhrofiad ar achos critigol sy'n ymwneud ag ymddygiad plant o fewn y dosbarth a'u hagwedd at wahanol fathau o weithgareddau sy'n effeithio ar gynnydd y plant. Gwelir hyn ar daflen arsylwi rhif dau yn yr atodiadau. Byddaf yn trafod 3 gwahanol ddisgybl ac yn cyfeirio at y 3 fel 'plentyn A, B, C'.

- Merch 6oed a 5 mis yw plentyn A.
- Bachgen 6oed a 10 mis yw plentyn B.
- Merch 6oed a 8 mis yw plentyn C.

Wrth arsylwi'r plant uchod am ddau ddiwrnod cyfan cafwyd y cyfle i ennill mwy o ddealltwriaeth am y plant hynny. E.e. Dod i adnabod eu diddordebau, pa fath o agwedd oedd gan y plant tuag at eu gwaith ag eraill o fewn y dosbarth ac adnabod personoliaethau'r plant. Wrth drafod yr achos critigol cyfeirir at lyfr Tripp (1993).

Y dasg a roddwyd gan yr athro oedd cwblhau her ddigidol gan ddefnyddio'r wefan hwb er mwyn mewngofnodi i'w ffeiliau ac yna lawr lwytho'r ddogfen gwaith sef cysylltu baneri cwpan y byd gydag enwau'r gwledydd. Pwrpas y dasg yma oedd herio'r disgyblion i adnabod chwe gwlad wahanol a'u cysylltu nhw gyda lluniau o faneri'r gwledydd. Mae'r dasg yma'n cysylltu gyda dau allan o bedwar diben Donaldson sef:-

1. ***Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:*** “yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth ai dadansoddi.”  
Ac “yn ymholgar ac yn datrys problemau.”
2. ***Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:*** “yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau.” (Donaldson, 2015, Tud.31)

Wrth i'r disgyblion gwblhau'r gwaith gwelwyd creadigrwydd y plant wrth ddefnyddio sgiliau digidol ar y gliniaduron. Trwy arsylwi tri disgybl gwahanol gwelwyd yr effaith y caiff y defnydd o dechnoleg arnynt. Ar y cyfan mae tueddiad i gymryd yn ganiataol bod pawb yn gwybod sut i ddefnyddio technoleg amrywiol. Roedd y dasg a osodwyd gan yr athrawes i'r grŵp o blant yma wedi uwch oleuo bod angen arweiniad arnynt o sut i ddefnyddio'r gliniaduron.

Ni lwyddodd 2 allan o'r tri disgybl fewngofnodi i'r gliniaduron, ac oherwydd hyn effeithiwyd ar agwedd y disgyblion mewn modd gwahanol. Roedd plentyn C yn ystyfnig iawn ac yn gwrthod derbyn unrhyw fath o help ac yn benderfynol o lwyddo ar ben ei hun, lle'r oedd Plentyn A yn fodlon derbyn unrhyw help gan oedolyn er ei bod hi wedi ei chynhyrfu ac yn gwylltio gyda'i hun a hynny'n troi'n agwedd negyddol at y gwaith "Dydw i methu gwneud e. Dydy hwn ddim yn gweithio". Llwyddodd plentyn B i fewngofnodi a pharhau i gwblhau'r gwaith. Yn syth gwelwyd agwedd negyddol wrth blentyn A a C tuag at y gwaith oherwydd bod ymdrin â'r cliniaduron yn eu rhwystro nhw rhag gwneud y gwaith. Dywedodd plentyn A "Pam nag ydym yn gallu gwneud hwn ar bapur fel pob tasg arall?"

Wrth ystyried yr achos critigol rhaid gofyn pam bod y digwyddiad yma wedi codi. Y peth cyntaf i'w wneud yw dadansoddi pa wybodaeth mae'r disgyblion wedi derbyn yn barod am sut i ddefnyddio'r cyfryngau digidol a beth yw eu dealltwriaeth nhw o hyn gan ystyried eu bod nhw rhwng 6 oed 5 mis a 10 mis.

*"Tell me and I forget. Teach me and I remember. Involve me and I learn." - Benjamin Franklin.*

Mae'r cysylltiad rhwng profiadau yn y cartref a'r ysgol yn cael eu hystyried yn yr achos critigol yma oherwydd profwyd y ddamcaniaeth uchod bod un unigolyn yn deall ac yn defnyddio gliniadur yn gyson yn y tŷ o gymharu â phlentyn A a C.

Wrth gyfeirio yn ôl at y pedwar diben Donaldson, doedd Plentyn A a C ddim yn dangos y gallu i ateb gofynion Donaldson o ran bod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, mentrus a chreadigol oherwydd nad oedd gan y disgyblion o dan sylw y gallu a'r ddealltwriaeth i gwblhau'r dasg heb gymorth proffesiynol.

### **Astudiaeth o Lenyddiaeth:**

Wrth ystyried yr achos critigol a nodwyd uchod, mae'r adran nesaf yn trafod y llenyddiaeth sydd yn gysylltiedig gyda'r agwedd a welwyd yn codi o'r achos critigol sef y dechneg sgaffaldu a dysgu cydweithredol.

Yn ôl Meggitt, et al, (2013) awgryma sawl astudiaeth bod scaffaldu yn dechneg ddefnyddiol i athrawon er mwyn helpu i addysgu disgyblion. Pwrpas scaffaldu yw helpu'r disgyblion i gyrraedd lefelau uwch trwy weithio ar gamau bach o ddysgu cyn cyrraedd y nod terfynol. Yn ôl Bruner a Vygotsky gall torri gwaith i ddarnau cefnogi disgyblion i gwblhau gwaith a gwella eu cymhelliant i weithio. Mae sgaffaldu yn elfen bwysig sydd yn digwydd rhwng yr addysgwr a'r plentyn. Gall yr addysgwr fod yn oedolyn neu gyfoedion mwy abl. Gelwir y cysyniad yma yn namcaniaeth Vygotsky sef porth datblygiad procsimol. (ZPD). (Siencyn, 2010)

Daw sgaffaldu o ddamcaniaeth Vygotsky 1978 yn wreiddiol a gwelir nifer o bwyntiau yn debyg yn namcaniaeth Bruner. Nodwyd (Peters, 2019) bod sgaffaldu yn fath o dechneg mae'r athrawon yn defnyddio er mwyn datblygu dealltwriaeth gyfredol y plant er mwyn cyrraedd y ddealltwriaeth sy'n ddisgwyliedig gan y fframwaith Cymhwysedd Digidol ar hyn o bryd mewn ysgolion. (Llywodraeth Cymru, 2008)

Yn ôl Cwricwlwm Cymru ar gyfer y cyfnod Sylfaen mae yna ddisgwyl i ddisgyblion blwyddyn 2 allu defnyddio sgiliau digidol yn y modd yma;

*Cynllunio sut i gwblhau tasg ddigidol mewn perthynas â meini prawf  
llwyddiant penodol a defnyddio allweddeiriau i chwilio am wybodaeth  
benodol i ddatrys problem. (Fframwaith Cymhwysedd Digidol,  
Llywodraeth Cymru, 2008)*

Un elfen bwysig iawn o sgaffaldu yw ei fod e'n fuddiol iawn i ddisgyblion sydd angen cymorth a chyfarwyddyd er mwyn cyrraedd y nod penodol sy'n ddisgwyliedig. Esboniodd Bruner a Vygotsky y dechneg yma fel teclyn sy'n gwneud cyswllt rhwng y bylchau yn dysgu a dealltwriaeth y disgyblion. Bydd y math yma o addysgu wedi helpu plentyn A a C wrth wneud y dasg cwpan y byd, byddai hefyd wedi caniatáu iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith a helpu i leihau rhwystedigaeth y plant, gan eu bod nhw'n gweld y tasgau digidol yn anodd. Dywed erthygl Peters, (2019) bod e'n cael ei ddefnyddio er mwyn tawelu plant sy'n mynd yn grac ac yn rhwystredig dros y gwaith a hefyd er mwyn cadw llygaid ar ymddygiad. Dengys yr ymchwil yma hefyd yr anfanteision o sgaffaldu o safbwynt athrawon e.e. bod rhaid iddynt, o bosib, newid eu harferion dysgu presennol. Mae'n rhaid cael gwell gafael ar reolaeth y dosbarth ac osgoi gadael iddynt ddysgu ar raddfa eu hunain i'r un graddau gan fod mwy o arweiniad wrth sgaffaldu. Ond yn ôl y fframwaith dysgu newydd gan Donaldson dyma bydd yn ddisgwyliedig o athrawon i'w wneud yn 2022 i ryw raddau. Awgryma Donaldson bod angen i ddisgyblion fod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Ond, dadl nifer yw bod angen gosod sgaffaldu yn eu lle er mwyn meithrin annibyniaeth.

*Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn unigolion iach, hyderus sydd: â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. (Dyfodol Llwyddiannus Donaldson, 2015)*

Ymhellach trafoda Wood, et al, (1976) her ychwanegol sef bod angen i athrawon darparu sgaffaldu ar gyfer pob plentyn yn ôl eu gallu, ac fe fydd y gwahaniaethu yn cymryd llawer o amser. Ond dywed Vygotsky mewn modd cadarnhaol gall hwn arwain at weithgareddau grŵp gyda'r disgyblion mwy galluog yn arwain y dysgu. Gwelir creadigrwydd plant yn fwy amlwg o fewn gwaith grŵp gyda'r disgyblion mwy galluog yn ymestyn eu gwaith meddyliol a'r disgyblion llai galluog yn derbyn cymorth gan eu cyfoedion. Mae'r ddamcaniaeth yma yn cefnogi athroniaeth Ysgol X sef gofyn i dri pherson cyn yr athrawes. (Athrawes, Ysgol X)

Dadl debyg sydd gan erthygl Wood, et al, (1976) yw bod Bruner yn amlinellu bod angen help a chymorth ar blant wrth iddynt ddechrau dysgu. Mae plant yn dibynnu ar yr help gan yr athrawon ac yna yn datblygu i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol, trwy ddeall a defnyddio sgiliau meddwl. Yn y pendraw, bydd y ddibyniaeth ar yr athrawon yn lleihau.

Awgryma gwaith Wheeler, (2017) taw esiampl o ddefnydd da o'r dechneg yma yw, gwneud yn siŵr bod y sgaffaldu yn briodol i bob disgybl o fewn y dosbarth yn ddibynnol ar eu lefel a gallu personol. Pwysleisir bod y dechneg sgaffaldu yn ffordd gwych o gymell disgyblion, a'u datblygu nhw i fod yn ddisgyblion hyderus er mwyn gallu archwilio a meddwl yn annibynnol. Yn y pendraw bydd y dull yma o fodelu/sgaffaldu yn rhoi blas o lwyddiant i'r plant.

Daw'r ddamcaniaeth yma gan Bruner o waith gwreiddiol Vygotsky ar sgaffaldu yn 1976. Cred Bruner bod rôl yr athro yn hanfodol wrth i blant wynebu cysyniadau newydd er mwyn darparu cyfleoedd, esboniad ac addysgu. (Olson, 2007) Dywed Bruner:

*'When children start to learn new concepts, they need help from teachers and other adults in the form of active support.'* (Wheeler, 2017)

Gellir dod i'r casgliad fod Bruner yn credu'n gryf dros y dechneg sgaffaldu gan fod Wheeler, (2017) yn uwch oleuo yn ei waith bod sgaffaldu yn annog ac yn datblygu sgiliau'r disgyblion er mwyn meddwl yn greadigol ac yn datblygu'r meddwl i ofyn cwestiynau.

Yn debyg i waith a damcaniaeth Bruner a Vygotsky ar sgaffaldu, mae Vygotsky yn ffafrio gwaith grŵp o fewn y dosbarth oherwydd dywed fod plant yn dysgu wrth ei gilydd ac maent yn dysgu trwy sgwrsio. Amlinella ef fod athrawon yn chwarae rôl wrth addysgu er mwyn

cefnogi, parchu a rhoi cyfleoedd er mwyn datblygu meddwl y disgyblion. (Dowling, 2006) Mae William, (2018, Tud.155) yn dadlau bod dysgu cydweithredol ond yn gweithio pan caiff ei wneud mewn modd trefnus ac effeithiol yn y dosbarth. Wrth ystyried y pwnc yma, gellir dweud bod gwaith ymchwil (William, 2018) yn cefnogi bod athrawon yn gallu cyd weithio gyda disgyblion er mwyn bod yn adnodd ystyrion a gwerthfawr i'w gilydd o'i wneud yn gywir.

O fewn gwaith grwp mae'r disgyblion yn dysgu oddi wrth ei gilydd oherwydd mae ganddynt gymhelliant i symud ymlaen. Mae hwn ond yn gweithio mewn modd ble mae'r dasg wedi cael ei threfnu mewn modd strwythurol. O fewn yr un math o waith grwp mae perthynas cymdeithasol da yn dod a'r disgyblion at ei gilydd i weithio ac felly yn cael dylanwad positif ar y gwaith grwp, gelwir hyn yn Cydlynid Cymdeithasol. Bydd hwn yn arwain at bob unigolyn yn cyfrannu'n fedrus o fewn y grwp. Dywed Slavin, et al, (2003) bod y math yma o gydweithio yn codi cyfradd ymdrech y disgyblion. Mae'r dysgwyr mwy abl yn gallu helpu ac egluro i unigolion eraill o fewn y grŵp sy'n cael trafferth deall. Mae hwn yn symud pawb ymlaen a hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion mwy abl i ymestyn eu dealltwriaeth o'r pwnc trwy drafod ag eraill.

Gyda datblygiad gwybyddol bod disgyblion mwy galluog yn ehangu dealltwriaeth feddyliol. Bydd disgyblion yn derbyn eglurhad o sut i ymateb yn gywir a thrwy hyn bydd y disgyblion yn derbyn cyfarwyddyd o ran sut i wella ac felly yn ymestyn eu dealltwriaeth o'r gwaith. Yn ol Web (1991) Mae cyfradd y dysgu yn codi 50% trwy ddefnyddio dull fel hyn. Un o'r agweddau codwyd gan Slavin (1995) yn ei ymchwil yw bod astudiaeth glir wedi cael ei wneud o ran pa fath o waith sy'n gweithio orau o fewn y dosbarth. Cafodd yr ymchwil ei selio ar ddau grŵp gwahanol. O fewn un grŵp roedd unigolion yn gweithio efo'i gilydd er mwyn cael canlyniad fel grŵp cyfan, lle bu'r ail grŵp yn dal i gydweithio fel grŵp ond roedd yr allbwn yn wahanol, gan fod clod yn cael ei rhoi i'r unigolyn sy'n gweithio orau o fewn y grŵp. Mae athroniaeth William, (2018) yn profi bod disgyblion yn gweithio'n well pan fydd y grwp cyfan yn derbyn clod, gan fod rhaid i bawb weithio'n galed a chyfrannu er mwyn i'r grŵp lwyddo.

Yn ôl astudiaeth Schacter (2000) mae cymorth cyfoedion yn gryfach nac arweiniad un wrth un gan yr athrawes dosbarth. Cred Wiliam, (2018) bod grwpiau sy'n cael eu harwain gan y disgyblion yn dysgu llawer mwy na'r disgyblion sy'n cael eu harwain gan yr athrawes. Mae yna sawl rheswm dros hwn. Noda William, (2018) Mae'r iaith mae disgyblion yn defnyddio gyda'i gilydd yn fwy eglur na'r iaith mae'r athrawes yn defnyddio. Yn aml hyd yn oed ar ôl yr ail eglurhad gan yr athrawes dydy'r plant dal ddim yn deall ond maent yn dweud eu bod nhw'n deall er mwyn osgoi teimlo'n ddwl. Mae plant yn ddigon parod i ofyn i'w gilydd am eglurhad arall a dweud wrthynt am arafu i lawr. Dywed William (2018) bod y dysgu rhwng y

disgyblion a'u cyd-ddisgyblion yn gallu bod yn fwy effeithiol o dan yr amgylchiadau cywir oherwydd y newid mewn perthynas statws. Gan nad oedd ystod gallu gyda'r 3 disgybl o fewn y grwp yn Ysgol X doedd hwn ddim yn bosib, ond efallai bod angen ystyried rhannu'r grwpiau i fynny er mwyn cael cymysgedd o alluoedd o fewn y grwp tra'n gwneud gwaith digidol.

### **Adfyfyrio, Gwerthuso a Chamau Nesaf:**

Trwy ddadansoddi ac adfyfyrio rydym yn dod i ddeall arddulliau dysgu ac yn tyfu i fod yn athrawon gwell, trwy hyn byddwn yn gallu cysylltu'n fwy effeithiol gyda'r disgyblion ifanc. Dylai'r adfyfyrio (Shandomo, 2010) arwain at blethu'r theorïau a ddysgwyd wrth astudio i'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth. Y fantais o hyn yw datblygu dealltwriaeth well o'r cyd-destun addysgu. I mi fel darpar athrawes, cymhwysais y gwaith ymchwil wrth feddwl am ffyrdd o ymateb i'r achos critigol a'r camau nesaf o ran yr addysgu.

Trwy ddefnyddio'r daflen BWA fel y gwelwyd yn yr atodiad isod, myfyrio a wnaaf ar yr hyn a arsylwyd. Byddai defnyddio'r dechneg sgaffaldu wedi bod yn fuddiol i'r disgyblion ym mlwyddyn 2. Gan na ddefnyddiwyd sgaffaldu am y dasg TGCh yn Ysgol X ni wnaeth y disgyblion y cynnydd disgwylidig. Cafodd hwn effaith negyddol ar agwedd y plant ac felly lleihau hyder y ddau ddisgybl i ganolbwyntio a chwblhau'r dasg. Petai sgaffaldu wedi cael ei ddefnyddio, yn ôl damcaniaeth Bruner a Vygotsky bydda hwyluso'r broses byddai llawer mwy o gynnydd.

O gofio'r safbwyntiau allweddol yma o ran sgaffaldu yn ôl yr arbenigwyr a ddarllenwyd, gyda thasg debyg yn y dyfodol, gellir:

1. Esbonio a modelu y camau sydd angen er mwyn mewngofnodi.
2. Dangos y camau mewn ffordd weledol e.e. Creu taflen camau gan ddefnyddio lluniau.
3. Gweithio un i un gyda'r disgyblion sydd ddim yn deall.

O gofio'r heriau a all godi yma, (Wood, et al, 1976) byddai angen i fi wahaniaethu'r ffordd o addysgu a gwneud yn siŵr bod taflenni gwaith gwahaniaethol ar gael. Wrth gwrs rhaid ystyried na ellir creu taflenni gwaith personol i bob unigolyn, ond gellir creu tair taflen gwaith a gosod y disgyblion mewn i grwpiau o dri gwahanol gallu. Er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu ar gyfer Plentyn A a Plentyn C credaf fod annog y disgyblion a chynnal cymhelliant yn bwysig. Felly gellid rhoi canmoliaeth ar lafar iddynt gan eu bod nhw'n ymdrechu ac yn dyfalbarhau. Credaf fod canmol disgyblion yn bwysig er mwyn ennyn eu diddordeb ac yn codi hyder y disgyblion gan eu bod nhw'n llwyddo.

Wrth adlewyrchu ar yr hyn a welwyd byddai gwaith grŵp efallai wedi bod yn fuddiol i'r unigolion a oedd yn gweld y dasg yn anodd. Felly wrth gofio'r safbwyntiau allweddol o ran dysgu cydweithredol gellir ystyried cyd-weithio mewn par o wahanol allu, a byddai hynny'n galluogi'r disgyblion i ddysgu o'i gilydd gyda'r disgybl mwy galluog yn arwain o bosib. Ar ôl cymhwyso dealltwriaeth y disgyblion o waith digidol ar y gliniaduron efallai byddai sesiwn atgoffa wedi helpu'r disgyblion penodol yma i gofio yn ôl i'r camau a ddysgwyd ym mlwyddyn 1. Wrth fyfyrir ar yr achos critigol a sonnir yn y traethawd yma rhaid ystyried bod y disgyblion o dan sylw newydd fod ar wyliau haf ac efallai heb wneud gwaith digidol am amser hir, ac wedi anghofio'r sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol. Gellir defnyddio'r un feddylfryd mewn sawl cyd-destun o fewn yr ystafell ddosbarth. H.y. Bwriadaf ddefnyddio sgaffaldu a dysgu cydweithredol yn fy ngwersi, gan yn ôl theorïau, mae'r math yma o strategaethau yn datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr deallus, meddyliol a chefnogol o'i gilydd.

Wrth fyfyrir ar lwyddiant gyda strategaethau fel hyn, dylid ystyried ar ddiwedd bob gwers:

1. Ydy'r disgyblion wedi cyrraedd y nod?
2. A ddysgodd y disgyblion rhywbeth a beth ddysgon nhw? H.y. eu cynnydd.

Bydd ymateb i gwestiynau fel hyn ar ddiwedd gwrs yn profi os oedd y wers yn llwyddiannus. Ac fel darpar athrawes byddaf yn dysgu trwy fethiant a llwyddiannau fy ngwersi.

### **Casgliad:**

O ran y meysydd i wella o ran y broses a ddilynaes y tro hwn, efallai bod angen ystyried defnyddio mwy o lenyddiaeth er mwyn cefnogi barn a chyfeirio at fwy o fanteision ac anfanteision gan gymharu damcaniaethau. O ran y cryfderau, llwyddais i ddangos fy nealltwriaeth o'r hyn yr ydwyf wedi'i ddysgu wrth arsylwi. A thrwy gwblhau'r traethawd yma, ymestynais fy nealltwriaeth ac ehangu ar wybodaeth ynglŷn â thechnegau dysgu e.e. damcaniaethau Bruner a Vygotsky a llenyddiaeth Dylan William ar ddysgu cydweithredol. Mae'r ymchwil yma wedi agor meddyliau ynglŷn â sut i fynd ati i addysgu disgyblion o alluoedd gwahanol o fewn fy nosbarth. Dof i'r casgliad fod angen cymorth ar unigolion i ddysgu cyn gallant fentro i weithio'n annibynnol ar unrhyw fath o dasg yn enwedig gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Wrth arsylwi yn y dyfodol, byddaf yn ceisio defnyddio mwy nag un fethodoleg er mwyn dyfnhau fy nealltwriaeth o'r achos critigol. Bydd defnyddio amrywiaeth o fethodoleg yn cryfhau fy nghanfyddiadau. Yn ychwanegol at hynny byddai'n ddiddorol cymharu'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Dau er mwyn gweld y gwahaniaeth o fewn ymateb y disgyblion i wahanol weithgareddau a thasgau sy'n cael eu gosod. Trwy gydol fy ngyrfa fel athrawes bydd adfyfyrir yn rhan allweddol ddyddiol o fy ymarfer gan rhaid myfyrir a dadansoddi er mwyn gwella'r addysgu.

**Llyfryddiaeth:**

1. Adroddiad Estyn, (2018) <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-█/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-█-adroddiad-estyn.pdf> (Darllennwyd: 26ain Medi 2019)
2. Beith,K.(2012) Children and Young People's Workforce. Harlow: Pearson
3. Cohen.L, Manion.L, Morrison.K (2007) Research Methods in Education. London: Routledge.
4. Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru (2008) <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/e0/19/f0/07/311e4d2d84a9c6ee5252de0a/fcd-y-cyfnod-sylfaen.pdf>
5. Donaldson, (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Llywodraeth Cymru
6. Dowling, (2016) <https://www.nurseryworld.co.uk/nursery-world/news/1100528/what-we-say-and-do> (Darllennwyd: 14ydd Hydref 2019)
7. Dyfyniad Benjamin Franklin:  
<https://www.azquotes.com/quote/101881?ref=technology-in-education> (Darllennwyd: 10fed Hydref 2019)
8. Gabriel Peters (2019) <https://www.theclassroom.com/advantages-disadvantages-scaffolding-classroom-8008434.html> (Darllennwyd:16eg Hydref 2019)
9. Hibajene M. Shandomo, (2010) <file:///F:/ECAD6007C/6007/Darllen/EJ915885.pdf>  
:Buffalo State College  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>
10. Lorina, (2016) <https://aussiechildcarenetwork.com.au/articles/childcare-programming/different-types-of-observation-methods> (Darllennwyd: 26ain Medi 2019)
11. Maggit.C, Kamen.T, Bruce.T, Grenier.J, (2015) Children and Young People's Workforce. London: Hodder Education.
12. Mukherji, Albon, (2015) Research Methods in Early Childhood. London: Sage.
13. Olson.D (2014) J. Bruner The Cognitive Revolution in Educational Theory. Bloomsbury library educational of thought.
14. Papatheodora, Luff, Gill, (2011) Child Observation for Learning and Research. London and New York: Routledge.
15. Pound.L (2009) How Children Learn 3 – Contemporary thinking and theorists. London: Practical Pre-school books.
16. Prospectws Ysgol x, (2017) <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gagynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/d6e4a1ed325b46cdab5656344ccfb265/prospectus-ysgol-cymraeg.pdf> (Darllennwyd: 26ain Medi 2019)

17. Seehorn.A (2017) [https://www.ehow.co.uk/info\\_8487340\\_advantages-assessment-early-childhood-education.html](https://www.ehow.co.uk/info_8487340_advantages-assessment-early-childhood-education.html) (Darllennwyd: 10fed Hydref 2019)
18. Siencyn.S, (2010) Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed. Athroniaeth Ymchwil a Ymarfer. Caerfyrddin: Prifysgol Y Drindod Dewi Sant. (Darllennwyd: 17eg Hydref 2019)
19. Tripp.D (1993) Critical Incidents in Teaching. Oxford: Routledge
20. University of Edinburgh, (2018) <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle> (Darllennwyd: 18fed Hydref 2019)
21. West Sussex.gov, (2015) [https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective\\_poa\\_and\\_planning.pdf](https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf) (Darllennwyd:8fed Hydref 2019)
22. Wheeler.S (2017) <https://www.teachthought.com/learning/learning-theories-jerome-bruner-scaffolding-learning/> (Darllennwyd:14ydd Hydref 2019)
23. William, D (2017) Embedded Formative Assessment: Solution Tree.
24. Wood.D, Bruner.J, Ross.G (1976) The Role of Tutoring in Problem Solving. Havard University.

**Atodiadau:****NODIADAU ARSYLWI / MAES - 1**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dyddiad: 26/09/19                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <p>Manylion y wers:<br/>Amser canu a chlonc -Cafodd y disgyblion y cyfle i rannu teimladau neu brofiadau gyda'r teganau siarter iaith sef Seren a Sbarc, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio Cymraeg cywir. Yn ogystal â hyn roedd hwn yn gyfle i'r disgyblion canu cân o fewn y dosbarth.</p>                                                                                              |
| <p><b>Diwylliant ar lawr dosbarth</b><br/>(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)<br/>Roedd 24 allan o'r 25 o ddisgyblion yn mwynhau'r dasg yma ac yn ddigon parod i rhannu sgysiau yn y Gymraeg o fewn yr amer cylch.</p>                                                                                                                                                         |
| <p><b>Amcanion</b><br/>(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)<br/>Pwrpas y wers yma oedd hybu'r iaith Gymraeg trwy sgwrsio a rhannu teimladau gyda ffrindiau a'r athrawes. Yn ogystal â hynny roedd yr athrawes yn gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn deall sut i dreiglo gan roi enghraifft anghywir a gadael i'r plant ei gywiro.</p> |
| <p><b>Cyfarwyddyd</b><br/>(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)<br/>Wrth arsylwi'r wers yma roedd e'n amlwg bod mwyafrif o'r disgyblion yn gyffrous iawn i siarad ac yn frwdfrydig iawn i ddweud wrth y dosbarth beth oedd eu profiadau nhw dros y penwythnos. E.e. Dros y penwythnos es i ....</p>                                             |
| <p><b>Mynediad a her</b><br/>(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)<br/>Roedd y dasg yma'n hybu unigolion swil y dosbarth i fagu hyder wrth siarad yn glir o fewn y cylch. Yn ychwanegol at hynny bu'r disgyblion yn cael eu herio trwy gywiro brawddegau anghywir ar lafar.</p>                                                                     |
| <p><b>Asesu</b><br/>Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?<br/>Asesodd yr athrawes ddealltwriaeth y disgyblion o dreiglo trwy roi enghreifftiau anghywir a gadael i'r disgyblion ymateb ar y cyd gyda'r ateb cywir.</p>                                                                                      |

**Manylebau / Achosion Beirniadol**

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Os nad oedd y disgyblion yn hyderus gyda'r atebion roedd tueddiad ganddynt i ddatgysylltu'r ffocws a gollwng y pen i'r llawr.
- Roedd y disgyblion yn dilyn rheolau'r dosbarth gan eistedd mewn cylch taclus a dim ond yn cael siarad â dal Seren a Sbarc. Gweithiodd y strategaeth yn dda o fewn y dosbarth er mwyn galluogi'r unigolion i gael cyfle i siarad a gwrando.

## NODIADAU ARSYLWI / MAES - 2

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19

Manylion y wers:

Cwblhau her ddigidol yr wythnos sef cysylltu baneri cwpan y byd gydag enwau'r gwledydd. Roedd y dasg yma'n cael ei wneud ar gluniaduron o fewn y dosbarth ar y wefan hwb.

**Diwylliant ar lawr dosbarth**

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Ar ddechrau'r dasg roedd y disgyblion yn awyddus iawn i ddechrau'r gwaith, ond yn sydyn newidiodd naws y plant o fewn y grŵp gan redden nhw'n cael anawsterau mewngofnodi. Roedd hwn wedi amharu ar y lefel o ganolbwyntio gan roedden nhw'n mynd yn grac ac yn colli amynedd gyda'u hunan.

**Amcanion**

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Pwrpas yr her oedd i'r disgyblion adnabod enw 6 gwlad wahanol a'u cysylltu nhw gyda lluniau o faneri'r gwledydd.

**Cyfarwyddyd**

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Deallodd y disgyblion yn union beth oedd y dasg ond nad oedden nhw'n glir o sut i ddefnyddio'r gluniaduron ac felly wedi cael ahawster gyda'r dasg yma.

**Mynediad a her**

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Yr her fwyaf ar gyfer y disgyblion oedd defnyddio'r sgiliau technoleg ddigidol gan nad oedd nifer ohonynt yn gallu adnabod y llythrennau ar y bysellfwrdd er mwyn mewngofnodi i'r wefan hwb. Roedd defnyddio hwb yn anodd i'r plant gan nad oedden nhw'n sicr o sut i gael y lluniau ar y tudalen. Felly'r her yn ystod y wers yma oedd cwblhau'r dasg yn gywir heb roi'r gorau iddi.

**Asesu**

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Er mwyn asesu'r sgiliau digidol roedd rhaid gwylio a phrofi'r disgyblion yn ceisio mewngofnodi ac yn methu er mwyn gallu dangos ac esbonio sut i'w wneud yn gywir.

Cymerodd y broses yma amser hir cyn iddynt ddeall. Ond er mwyn gallu gwneud hwn roedd rhaid esbonio cam wrth gam yn araf a gan ddefnyddio lluniau.

**Manylebau / Achosion Beirniadol**

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Trefn yn amlwg o fewn y dosbarth.
- Roedd y pwyntiau do-jo yn rhan fawr o'r diwrnod ac yn cyffroi'r disgyblion.
- Ar ôl cwblhau'r heriau penodol roedd y disgyblion yn mynd i'w siart a thicio'r her.

## NODIADAU ARSYLWI / MAES - 3

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:  
02/10/2019

Manylion y wers:

Heddiw'r dasg ffocws ar gyfer blwyddyn 2 oedd gwaith iaith ar y thema ceir fformiwla 1. Roedd rhaid i'r disgyblion defnyddio ansoddeiriau, berfau a chymariaethau i ddisgrifio gwahanol fathau o geir.

### Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Mae'r disgyblion wedi cael eu rhannu i mewn i grwpiau yn ol gallu gwahanol er mwyn cyflawni pedwar her yn ystod yr wythnos. Mae'r heriau yn cynnwys gwaith rhifedd, llythrennedd, llythrennedd digidol, gweithgareddau awyr agored, gyda'r dasg ffocws yn cael ei arwain gan yr athrawes.

### Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Mae yna pwrpas i bob tasg mae'r plant yn ei wneud a thrwy gwneud y tasgau mae bob un ohonynt yn dysgu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r gweithgareddau o fewn y dosbarth fel arfer yn ymwneud a thema'r dosbarth.

### Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Er mwyn i'r disgyblion gallu cyflawni'r heriau amrywiol yma mae yna daflennu gwahanol i bob grŵp gyda champau penodol iddyn nhw ddilyn. E.e. Grŵp ciwb yn derbyn strwythur brawddeg syml a grŵp sgwâr yn derbyn strwythur brawddeg estynedig er mwyn cynnwys cymariaethau.

### Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Mae'r disgyblion yn deall strwythur y wers gan ymgymryd yn y tasgau yn syth. Bu'r tasgau yma'n helpu'r disgyblion i feddwl yn annibynnol ac yn cysylltu'r sgiliau sylfaenol at ei gilydd.

### Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Yn ystod yr heriau gweithia'r athrawes dosbarth gydag un grŵp ar y dasg ffocws yn unig. Mae asesu ar gyfer dysgu yn cael ei ddefnyddio ar ddiwedd y dasg ffocws trwy ddefnyddio'r dull goleuadau traffic. Caiff y dull ei ddefnyddio er mwyn gweld beth yw

dealltwriaeth y disgyblion ar ôl cwblhau'r dasg a gweld os oedd y dasg wedi bod yn llwyddiannus yn ei llygaid nhw. Mae hwn yn profi os oedd y disgyblion wedi mwynhau, deall yn ogystal â darganfod unrhyw heriau.

**Manylebau / Achosion Beirniadol**

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Mat iaith oedd yn cynnwys dechrau brawddegau a geirfa allweddol i'r pwnc.

**NODIADAU ARSYLWI / MAES - 4**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dyddiad: 02/10/19                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <p>Manylion y wers:<br/>Her mathemateg - Roedd rhaid i'r disgyblion trefnu ceiniogau a phunnoedd o'r lleiaf i'r mwyaf, gan ddefnyddio'r sgil o dorri allan a gludo yn y llyfr.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <p><b>Diwylliant ar lawr dosbarth</b><br/>(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)<br/>Gan fod y dasg yma'n un annibynnol roedd rhan fwyaf o'r disgyblion o fewn y grŵp yn canolbwyntio ar y dasg. Ond yn aml gwelir un disgybl yn crwydro ac yn cymryd amser hir i dorri'r darnau allan. Efallai'r rheswm dros hyn oedd ei fod e ddim yn deall y dasg neu ddim yn yr hwyl i weithio.</p>                                                                                                                                                                                                           |
| <p><b>Amcanion</b><br/>(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)<br/>Dyma dasg a oedd yn helpu'r disgyblion i ddeall trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf yn y cyd-destun arian.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <p><b>Cyfarwyddyd</b><br/>(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)<br/>Gan fod y dosbarth yma'n dosbarth heriol iawn mae'n anodd canolbwyntio oherwydd yr holl dorri ar draws gan un disgybl penodol. Mae hwn yn gwneud y dysgu o fewn y dosbarth yn eithaf anodd i'r disgyblion i gadw ffocws ar y dasg ac felly bu rhaid i mi ail esbonio'r dasg i'r grŵp.</p>                                                                                                                                                                                                   |
| <p><b>Mynediad a her</b><br/>(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)<br/>Wrth arsylwi nifer o grwpiau gwahanol gallu yn ystod y dydd sylweddolaf fod rhai disgyblion yn cael ei herio yn fwy na'r lleill oherwydd ei bod nhw'n gwneud gwaith sydd heb gael ei gyflwyno i'r dosbarth eto er mwyn ymestyn ei dealltwriaeth o'r pwnc. E.e. Yn ystod gwersi mathemateg mae'r dosbarth wedi bod yn canolbwyntio ar arian gan ddefnyddio ceiniogau. Ond yn ystod un o'r heriau heddiw roedd grŵp sgwâr yn trin punnoedd ac felly yn gweld y dasg yn anodd ar y dechrau.</p> |
| <p><b>Asesu</b><br/>Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |

Mae'r disgyblion wedi cael eu grwpio yn ôl eu gallu ac felly mae'r athrawes wedi gosod gwaith gwahaniaethol i bob grŵp. Ar ôl iddynt orffen yr her bu'r disgyblion yn gwirio'r gwaith gyda'r athrawes. Caiff hwn ei wneud mewn modd gosod clod a tharged er mwyn rhoi cyfle iddynt wella'r dasg neu newid yr ateb.

**Manylebau / Achosion Beirniadol**

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Cyfuno creadigrwydd a sgiliau mathemateg i hybu dealltwriaeth y disgyblion.

## Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)- 1

### Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

**Dyddiad/Date: 26/09/19**

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Amser Canu a Chlonc.**

| Profiad/ Experience                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teimladau/ Feelings</b><br><i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i><br><i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>                                                                                                                                                                                                                                               | <p>Yn bersonol roeddwn i'n hyderus wrth helpu allan yn y sesiwn canu a chlonc gan fy mod i'n mwynhau canu ac felly yn teimlo'n gyffyrddus.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <b>Cofio a Deall/ Remember and Understand</b><br><i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i><br><i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i><br><br><i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i><br><i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>                                | <p>Roedd y profiad yn un pleserus gan roedd bron bob plentyn yn mwynhau'r profiad ac felly'n datblygu eu sgiliau cyfathrebu mewn ffordd hwylus.</p> <p>Roedd e'n amlwg bod canu i gerddoriaeth wedi recordio ym modd effeithiol yn y dosbarth yma gan roedd y disgyblion a'r athrawes yn ymddwyn mewn modd hyderus.</p> <p>Siomedig oedd gweld nad oedd pob disgybl yn hyderus i siarad ar ben eu hun o flaen y dosbarth wrth ddal Seren a Sbarc.</p> |
| <b>Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse</b><br><i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i><br><i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i><br><br><i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i><br><i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i> | <p>Credaf fod sesiwn canu a chlonc yn arfer da i ran fwyaf o'r disgyblion, er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau cyfathrebu mewn ffordd hwylus.</p> <p>Credaf yr unig broblem ynghyd y sesiwn yma oedd un disgybl swil. Nad oedd plenyn B yn hoff iawn o amgylchiadau fel hyn ac felly yn dawel iawn yn ystod y sesiwn canu a chlonc.</p>                                                                                                                  |
| <b>Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions</b><br><i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i><br><i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i><br><br><i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i><br><i>"What will you do next?"</i>                                                                            | <p>Er mwyn gwneud yn siwr bod pawb yn mwynhau'r sesiwn efallai bod angen rhannu'r dosbarth yn 2 fel bod llai o ddisgyblion yn y grwp ac felly llai o bwysau ar unigolion swil i siarad o flaen pawb. Er hyn credaf bod rhoi disgyblion swil mewn l syfyllfaodd fel hyn yn bwysig er mwyn dod a'r disgyblion na allan o'i cragen.</p>                                                                                                                  |
| Y profiad newydd / Transformed experience                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |

## Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)- 2

### Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

**Dyddiad/Date: 26/09/19**

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Tasg digidol Cwpan y Byd.**

| Profiad/ Experience                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teimladau/ Feelings</b><br><i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i><br><i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>                                                                                                                                                                                                                                               | <p>Yn ystod y profiad o weithio gyda'r grŵp, teimlais ychydig yn rhwystredig gan nad oeddwn i wedi cael unrhyw fath o arweiniad i'r dasg ac felly'n methu helpu'r sefyllfa yn syth.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <b>Cofio a Deall/ Remember and Understand</b><br><i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i><br><i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i><br><br><i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i><br><i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>                                | <p>Yn yr achos yma roedd y dasg yn caniatáu i'r disgyblion datblygu dealltwriaeth o wledydd cwpan y byd a thrwy hyn roedden nhw'n mwynhau ymchwilio am faneri'r gwledydd ar ôl iddynt gael mynediad i'r wefan hwb.</p> <p>Yn yr achos yma, y broblem oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Doedd y plant methu cael mynediad i'r dasg oherwydd roedd y plant yn cael problemau mewngofnodi ac yn methu defnyddio'r allweddell yn gywir.</li> <li>- Roedd hwn yn cael effaith ar ymddygiad ac agwedd y plant tuag at y gwaith.</li> </ul> |
| <b>Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse</b><br><i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i><br><i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i><br><br><i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i><br><i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i> | <p>Yn y dyfodol byddaf yn cadw cynnwys y dasg yr un peth gan fod y disgyblion yn ennyn diddordeb mewn digwyddiad sy'n bwysig i'r genedl. Ond efallai byddai defnyddio Word a' we yn fwy o ddefnydd na defnyddio'r wefan hwb i wneud y gwaith i gyd.</p> <p>Y broblem fwyaf oedd bod y disgyblion wedi anghofio sut i fewngofnodi ac yn mynd yn grac yn hawdd.</p>                                                                                                                                                                                     |
| <b>Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions</b><br><i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i><br><i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i><br><br><i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>                                                                                                               | <p>Efallai bod angen defnyddio siart cam wrth gam i'r grwpiau gyda llai o allu TGCh. Bydd hwn yn hwyluso'r broses i'r disgyblion ac o gymorth iddynt wrth gwblhau tasgau digidol gan gobeithio roi cymhelliad i'r plant i beidio rhoi'r gorau iddi.</p> <p>Yn bersonol credaf fod angen arwain y dysgu gan yr athrawes neu gynorthwydd dosbarth wrth wneud tasgau digidol, gan nad yw'r plant yn hyderus ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r dechnoleg yn iawn ac yn cael llawer o drafferth wrth geisio ei ddefnyddio.</p>                               |

|                                           |  |
|-------------------------------------------|--|
| "What will you do next?"                  |  |
| Y profiad newydd / Transformed experience |  |

## Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)- 3 Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

**Dyddiad/Date: 02/10/19**

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Tasg Ffocws Fformiwla 1.**

| Profiad/ Experience                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teimladau/ Feelings</b><br>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?<br>"What are your feelings regarding the experience?"                                                                                                                                                                                                                                 | Gan oedd sgaffaldu yn ei le yn ystod y dasg yma, teimlais fy mod i'n gallu helpu'r disgyblion i wella safon eu gwaith gan gwestiynu ac ehangu geirfa'r disgyblion.                                                                                                                                |
| <b>Cofio a Deall/ Remember and Understand</b><br>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?<br>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"<br><br>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?<br>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"                                | Wrth arsylwi roedd e'n amlwg bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau'r profiad o weithio yn yr ardal llythrennedd i ymestyn eu brawddegau fformiwla 1 gan ddefnyddio matiau iaith.<br><br>Siomedig oedd gweld un disgybl yn amharu ar y wers ac yn gwrthod gwneud unrhyw dasg o fewn y dosbarth. |
| <b>Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse</b><br>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?<br>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"<br><br>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?<br>"What was the cause of the most important disappointing element?" | Credaf fod y defnydd o fatiau iaith gefnogol yn fuddiol iawn i'r disgyblion ac roedden nhw'n ei ddefnyddio yn hyderus, gweithiodd y strategaeth yma'n effeithiol iawn.<br><br>Wrth ddadansoddi'r achos siomedig sylweddolir bod yna problemau ymddygiadol gyda'r bachgen.                         |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Casgliadau a chamau gweithredu/<br/><i>Conclusions and actions</i><br/><i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i><br/><i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i></p> <p><i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i><br/><i>"What will you do next?"</i></p> | <p>Ar ôl ystyried problemau ymddygiadol y bachgen credaf dylai ef gael cymorth un wrth un mewn ystafell ar wahân er mwyn hybu iddo weithio a phrofi llwyddiant. Efallai bydd y cam yma yn rhoi strwythur penodol i'r bachgen ac felly'n hybu iddo ddatblygu cymhelliant i weithio a chanolbwyntio mewn amgylchedd gwahanol i weddill y dosbarth.</p> |
| Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

## Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) - 4 *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

**Dyddiad/Date: 02/10/19**

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Her Mathemateg.**

| Profiad/ Experience                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Teimladau/<br/><i>Feelings</i><br/><i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i><br/><i>"What are your feelings regarding the experience?"</i></p>                                                                                                                                                                                                                                                | <p>Teimlais yn hyderus wrth weithio ar y dasg trefnu arian gyda'r disgyblion gan fy mod i'n deall sut i ddefnyddio technegau dysgu mathemateg ac yn mwynhau'r pwnc.<br/>Roedd y disgyblion i'w weld yn deall y dasg ac yn mwynhau defnyddio sgiliau torri a gludo wrth drefnu'r arian o'r lleiaf i'r mwyaf yn eu llyfrau.</p>                                                                                                                                            |
| <p>Cofio a Deall/<br/><i>Remember and Understand</i><br/><i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i><br/><i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i></p> <p><i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i><br/><i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i></p>                                | <p>Pwysleisiodd y dasg bod y disgyblion yn hyderus wrth dorri allan yn daclus ac yn mwynhau'r profiad o ddefnyddio sgiliau creadigol o fewn her mathemateg. Yn fy marn i roedd hwn yn hwyluso'r broses i nifer o ddisgyblion a oedd yn gweld y pwnc mathemateg yn anodd.</p> <p>Gan fod yna nifer o heriau i'w gwblhau o fewn yr wythnos, roedd rhai unigolion yn dewis pryd oedden nhw yn yr hwyliau i weithio. Oherwydd hyn nad oedd pob plentyn ar dasg bob dydd.</p> |
| <p>Gwerthuso a dadansoddi/<br/><i>Evaluate and analyse</i><br/><i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i><br/><i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i></p> <p><i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i><br/><i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i></p> | <p>Gweithiodd y dasg yn effeithiol ac felly mi fyddaf yn cadw'r dasg yr un peth.</p> <p>Teimlaf yr elfen fwyaf siomedig am y wers yma oedd yr unigolyn a oedd yn crwydro ac yn anwybyddu'r dasg trefnu arian o'r lleiaf i'r mwyaf. Efallai nad oedd y disgybl yma'n hoff iawn o waith mathemateg ac felly'n ceisio anwybyddu'r dasg.</p>                                                                                                                                 |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Casgliadau a chamau gweithredu/<br/><i>Conclusions and actions</i></p> <p><i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i><br/><i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i></p> <p><i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i><br/><i>"What will you do next?"</i></p> | <p>Er mwyn sicrhau bod hwn ddim yn digwydd yn y dyfodol, credaf mai'r camau nesaf wrth gyflwyno her fel hyn fydd gwobrwy'n unigol am y disgybl sydd wedi ymdrechi i gwblhau'r gwaith ac efallai gwneud yr her mewn modd ymarferol gan chwarae siop wrth drin arian.</p> |
| Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                         |